Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanddeiniolen 4ydd Gorffennaf 2023

Croeso a Gweddi Rhoddwyd Croeso gan Y Cadeirydd, a gair o weddi gan Idris Thomas.

Presennol - Y Cadeirydd Jane Pierce ynghyd a'r Cynghorwyr, Sasha Williams, Elwyn Jones, Idris Thomas, Emma Chappell, Gareth Griffiths, Phyllis Ellis a Lowri Ann James.

Yn Rhithiol: Elfed Wyn Williams, Rhian Evans-Hill

Croesawyd Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones

Ymddiheuriadau - Gareth Hughes, Ynyr Parri, Dawn Parry, Ellen George.

Datgan Buddiant - Dim

Cofnodion Cyfarfod 6ed Fehefin 2023

Cafwyd y Cofnodion yn gywir:

Idris Thomas (1) Emma Chappell (2)

Materion o'r Cofnodion

Neuadd Rhiwlas - Yn dilyn ymchwil pellach gan y clerc ynglŷn â dogfennau ar gyfer cofrestru'r tir, bydd rhaid dilyn hyn trwy gyfreithwyr, gan mai ond trwy gais gan gyfreithiwr mae posib gwneud ymchwil pridiannu tir i'r Cyngor Sir. Felly, gan fod pwyllgor y Neuadd wedi defnyddio Cwmni Elwyn Jones, da o beth fyddai i'r Cyngor barhau gyda hwy gan fod y cefndir gwreiddiol yno. Cytunwyd yn unfrydol i'r clerc wneud yr ymholiadau a chael cychwyn i'r broses.

Awdit - Nododd y Clerc ei bod wedi rhoi hysbysiad o Awdit ar y wefan a bod rhai yn cael ei rhoi ar yr hysbysfyrddau'r wythnos yma. Nododd hefyd ei bod wedi gyrru'r ffeiliau i Awdit Cymru yng Nghaerdydd gyda chwmni DPD. Mae'n debygol bydd y Gwaith archwilio yn cychwyn o gwmpas Gorffennaf 31.

Ymddygiad Gwrthgymdeithasol - Nododd Elfed Williams fod yr heddlu i fyny yn aml yn Neiniolen y dyddiau yma, mae sawl peth yn codi lle maent yn cael eu galw. Mae pethau i weld wedi distewi ychydig o amgylch y Fynwent unwaith eto.

Gohebiaeth a Materion Eraill

Apêl Eisteddfod Genedlaethol - Derbyniwyd llythyr gan yr ysgrifennydd yn Diolch a Llongyfarch yr ardal am gyfrannu a chyrraedd y targed penodol. Diolch I bawb a fu yn trefnu neu yn rhan o weithgareddau ac i bawb a gyfrannodd at yr achos. Gobeithio cawn Eisteddfod I'w chofio ym Moduan.

Cadeirydd……..

Cynllunio

Derbyniwyd y ceisiadau canlynol:

C23/0517/18/LL, 30 Stryd Newydd, Deiniolen

Gosod pwmp Gwres Ffynhonnell Aer mono bloc sy'n sefyll ar ei ben ei hun

Dim Gwrthwynebiad

C23/0487/18/DT 10 Bryn Tirion, Penisa'r-waun

Estyniad cefn un llawr arfaethedig ar gyfer ystafell wely ac ystafell ymolchi hygyrch.

Dim Gwrthwynebiad

C23/0463/18/LL Plas Coch Penisa'r-waun

Cais ôl gweithredol i drosi adeilad allanol i lety gwyliau.

Gwrthwynebu ar sail ein bod wedi codi datblygiad anghyfreithlon a bod yr adran weithredu wedi ymweld â'r adeilad ac wedi rhoi gorfodaeth i beidio datblygu pellach yno, Mae hyn yn digwydd llawer rhy aml yn **yr ardal.**

C23/0494/18/LL Plas Coch Penisa'r-waun

Newid defnydd o dir presennol i greu strwythurau dros dro ar gyfer gosod gwyliau.

Mae'r cais yma yn cael ei gyflwyno am yr eildro, a bu i'r Cyngor ei wrthwynebu yn gryf y tro cyntaf, ac yn dal i wrthwynebu. Mae yn o'r datblygiad mewn ardal hollol anaddas yng nghefn gwlad sydd gyda thai preifat o'i amgylch, Nid yw'r mynediad yn addas gyda lôn eithriadol o gyfyng i fynd ato. Mae hefyd ger Cegin Arthur sydd yn ardal hanesyddol rydym yn ceisio ei gadw. Mae cais wedi ei roi i'r ddau gais fynd i bwyllgor**.**

Llwybrau

Llwybr o Gapel Glasgoed - Mae yna giât Mochyn ger tŷ Tawelfan, ac mae'r giât wedi ei chau gyda gordyfiant. Nid ydym yn gyfrifol am dorri'r llwybr gan mai llwybr dros gaeau yw. Ond mae angen clirio gordyfiant ar y giât.

Caban Brynrefail

Bu i'r cynghorydd Berwyn Parry Jones ymweld â rheolwyr y caban yn dilyn gwahoddiad gyda Siân Gwenllïan. Mae pryder ganddynt fod y lles yn dod i ben o fewn 4 blynedd, ac mae yna waith ar yr adeilad. Bydd trafodaethau yn cychwyn gyda Chyngor Gwynedd I weld beth fydd dyfodol y Caban.

Cadeirydd…….

O Gwmpas y Bwrdd

Elfed Wyn Williams

Cawsom grynodeb o bethau mae Elfed yn gweithio arno ar hyn o bryd. Nododd fod Cyngor Gwynedd wedi cytuno i osod arwydd dim lorïau trwm ar gais y Cyngor Cymuned ger y groesffordd wrth ymyl garej Arfon.

Ceisio cael datrysiad i:

Ail-wynebu Ffordd y pentref

Carafanau sydd wedi eu gosod ger Capel Cefn y Waun

Gwybodaeth am gynlluniau Capel Ebeneser a Thir ger Tai Fictoria

Sasha Williams

Arwydd 30 M.Y.A. Ffordd o ganol Bethel I Gelli Gyffwrdd

Mae'r ffordd yma yn sobor o beryglus. Mae yna gôr yrru arni, ac mae yn ceisio ers tro cael ymestyn y 30 M.Y.A. cyn belled â heibio Gwynfryn. Yn ddiweddar, fu bron i blentyn ar feic cael ei daro lawr ger y ffordd heibio'r neuadd Lwcus fod criw o bobl yno yn siarad Â gweld y plentyn mewn peryg. Roedd y car yn gyrru ar fryd dros yr humps, a'r lôn yma yn arwain iddynt fynd ar y ffordd I Gelli gyffwrdd wedyn. Mae'r paent wedi diflannu oddi ar y bumps. Hefyd mae'r paent melyn sydd ar y ffordd croesi ger yr ysgol wedi gwisgo, Bydd y clerc yn ysgrifennu ar ran y Cyngor mewn cefnogaeth i'r ceisiadau yma.

Elwyn Jones

Mae wedi dosbarthu'r llythyrau er mwyn cadarnhau'r llwybr gwreiddiol ar y mapiau. Gobeithio y byddant wedi eu casglu dros yr haf i drosglwyddo I Gyngor Gwynedd ym mis Medi.

Dal i weithio ar ostwng y 30mya o Raca at y pentref. Ym Medi bydd 20mya yn dod i rym trwy'r pentref, a'r gobaith ydi cael 30mya o Raca hyd at y Cartref.

Stryd Deiniol I lawr heibio wal y Fynwent

Angen cael ei llnau o chwyn a thyfiant.

Llwybr Bodandreg

Yn ddiweddar cafodd ambell cerddwr ei nadu rhag mynd ar hyd y llwybr gan fod clo unwaith eto wedi cael ei roi ar giatiau.

Cadeirydd……..

Casgliadau Sbwriel ac ailgylchu

Sawl ardal heb gael casgliadau, ond nid oedd casgliad o sbwriel wedi ei wneud yn Rhiwlas ar ddydd Mawrth 28ain. Nid ydynt dal heb gasglu, ac felly, bydd y biniau yn llawn am 3 wythnos heb eu casglu, ynghyd a 3 wythnos arall. Lle mae pobl yn fod i roi ei bagiau gyda'r bin yn or- lawn bydd sticer yn cael ei roi a dim casglu?

Nid yw casgliad ail gylchu yn cael ei godi bob wythnos chwaith, ond yn wahanol i'r sbwriel, mae hwn yn lan.

Wrth gwrs mae yn bosib mynd a'r ailgylchu i'r man ailgylchu yn Llandygai, ac mae yn rhaid canmol y gwasanaeth yma. Mor gyfleus i fwcio slot ynghyd a staff mor glen sydd yn fodlon helpu ar ôl cyrraedd yno.

Cadarnhau Taliadau:

643 - £696

644 - £420

645 - £134.79

646 - £386

647 - £250

648 - £258

Bydd seibiant dros yr haf gan nad oes cyfarfod ym mis Awst. Bydd y Cyfarfod nesaf ar y 5ed o Fedi.

Cadeirydd……..